# **Siarad gyda fi - Cam 2:** Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, 2026-2030

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Comisiynydd y Gymraeg

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

Ebost/Rhif ffôn: post@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad (os yn ymateb drwy'r post):

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 30/04/2026 i

Siarad Gyda Fi
Is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Cyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

neu gallwch lenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: SiaradGydaFi@llyw.cymru

**Cwestiwn 1:**
Ydych chi'n cytuno â'r datganiad - mae'r enw 'Siarad gyda fi Cam 2' yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i gwmpasu ymestyn y gwaith hwn i blant rhwng 5 ac 11 oed.
Os na, allwch chi awgrymu rhywbeth arall?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | x | | | |

| Sylwadau ychwanegol, dylech gynnwys newidiadau i'r enw a awgrymir yma: |
|---|
| |

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 1) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | x | | | |

| Sylwadau ychwanegol: |
|---|
| Cytunwn â'r gweithgarwch newydd a gynigir dan **Amcan 1** i gynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol, ddwyieithog i godi ymwybyddiaeth o batrymau datblygiad arferol a strategaethau i hyrwyddo lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn plant 5 i 11 oed. Mae'n bwysig sicrhau bod ymgyrch o'r math yn cynnwys negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg a sut i hyrwyddo lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y Gymraeg. Dylai hefyd godi ymwybyddiaeth o ddatblygiad arferol plant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol, gan gynnwys plant sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf a phlant dwyieithog ac amlieithog. |

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o wella'r broses o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 2) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | x | | | |

Sylwadau ychwanegol:

Dan **Amcan 2** cytunwn â'r gweithgarwch newydd a gynigir i gomisiynu, os oes angen, adolygiad annibynnol o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer nodi anghenion mewn plant 5 oed a hŷn yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n bwysig sicrhau bod adolygiad o'r math yn ystyried yn drwyadl y gwahaniaethau posibl rhwng anghenion plant o gefndiroedd lle mai'r Gymraeg yw iaith yr aelwyd, lle mae'r Gymraeg yn un o ieithoedd yr aelwyd, a lle mae'r Gymraeg yn iaith a ddysgir trwy'r gyfundrefn addysg yn unig. Cytunwn hefyd â'r bwriad i barhau i ddatblygu'r pecyn gwyliadwriaeth ac ymyriadau dwyieithog ar gyfer y blynyddoedd cynnar, sef Prosiect Pengwin, a'i werthuso.

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o wella'r cymorth i'r rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 3) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | x | | | |

Sylwadau ychwanegol:

Cefnogwn y newid i **Amcan 3** i sicrhau bod y gweithlu sy'n cefnogi babanod a phlant yn wybodus a chymwys i ddarparu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Pwysleisiwn bwysigrwydd sgiliau Cymraeg y gweithlu i sicrhau y cefnogir babanod a phlant yn effeithiol gyda'u Cymraeg. Cytunwn â'r gweithgarwch newydd a gynigir i adolygu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant 5 oed a hŷn yn Gymraeg a Saesneg, a phennu hyd a lled y ddarpariaeth

cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant oedran ysgol yng Nghymru. Mae’n hanfodol dadansoddi’r ymyriadau a’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir yn rhan o’r gweithgarwch hwn.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu arfaethedig i uwchsgilio'r gweithlu i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 4) yn arwain at adnabod anghenion yn well a chymorth gwell?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | x | | | |

Sylwadau ychwanegol:

Dan **Amcan 4** cytunwn â’r gweithgarwch newydd a gynigir i archwilio cyfleoedd i ymgorffori lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn hyfforddiant cyn-gofrestru gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd, Addysg Gychwynnol Athrawon a Gweithwyr Cymdeithasol, a nodi bylchau yn yr adnoddau hyfforddi ar gyfer sectorau gwahanol. Cefnogwn y bwriad i barhau ag ymrwymiadau presennol ‘Siarad gyda fi’, gan gynnwys diweddaru’r fframwaith hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer y blynyddoedd cynnar, cyhoeddi’r fframwaith hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer plant oedran ysgol a gwerthuso’r defnydd a wneir ohono a’i effaith, a pharhau i gyflwyno a gwerthuso hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer Ymwelwyr Iechyd. Ym mhob un o’r cyd-destunau hyn, dylai’r Gymraeg fod yn ystyriaeth greiddiol i brif nod yr amcan o uwchsgilio’r gweithlu.

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymir o ymgorffori cymorth ataliol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ledled Cymru (amcan 5) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | x | | | |

Sylwadau ychwanegol:

| |
|---|
| Croesawn y pwyslais yn **Amcan 5** ar sicrhau bod cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gael ledled Cymru. Yn rhan o hyn, dylid sicrhau bod darpariaeth Gymraeg gyflawn a chyson ar gael ym mhob ardal. Cytunwn â'r gweithgarwch newydd a gynigir i gynnal cysylltiadau cryf â chydweithwyr ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) er mwyn ystyried anghenion hyfforddi ar gyfer y gweithlu ADY. Dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y cyd-destun hwn oherwydd y diffygion yn y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg sy'n destun pryder ledled Cymru, a nodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru. |

**Cwestiwn 7:** Ar wahân i'r 5 amcan a awgrymir ar hyn o bryd yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw amcanion eraill y dylem eu cynnwys? Rhowch y manylion yn y blwch isod.

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|
| | | |

| Sylwadau ychwanegol: |
|---|
| |

**Cwestiwn 8:** Ar wahân i'r camau gweithredu arfaethedig a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw gamau eraill y dylem eu cynnwys? Rhowch y manylion yn y blwch isod.

(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod / dim barn |
|---|---|---|
| x | | |

Sylwadau ychwanegol:

Credwn y dylid cryfhau'r camau gweithredu arfaethedig er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, fel y trafodir yn ein hatebion i Gwestiynau 2 i 6 uchod.

Yn gryno, dylai'r camau gweithredu gynnwys yr elfennau canlynol:

- sicrhau y cyhoeddir negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg a phwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y Gymraeg
- hybu dealltwriaeth o ddatblygiad arferol plant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol
- cynnwys y Gymraeg yn elfen greiddiol o unrhyw adolygiad neu werthusiad o ddulliau adnabod anghenion, darpariaeth neu adnoddau cefnogi
- gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol wrth ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu eang sy'n ymwneud â'r maes hwn
- annog a chefnogi'r gweithlu yn barhaol i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu babanod a phlant
- sicrhau bod darpariaeth Gymraeg gyflawn a chyson yn rhan o'r cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ym mhob ardal yng Nghymru.

**Cwestiwn 9** – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori *(*i hyrwyddo a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru) ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol:

Credwn y gallai'r amcanion arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Er mwyn sicrhau hynny, dylid cryfhau'r amcanion yng nghyd-destun y Gymraeg, fel y trafodir yn ein hatebion i Gwestiynau 2 i 6 uchod.

Yn gryno, dylai'r cynllun cyflawni ar gyfer 2026 i 2030 gynnwys yr elfennau canlynol:

- sicrhau y cyhoeddir negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg a phwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y Gymraeg
- hybu dealltwriaeth o ddatblygiad arferol plant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol
- cynnwys y Gymraeg yn elfen greiddiol o unrhyw adolygiad neu werthusiad o ddulliau adnabod anghenion, darpariaeth neu adnoddau cefnogi
- gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol wrth ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu eang sy'n ymwneud â'r maes hwn

- annog a chefnogi'r gweithlu yn barhaol i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu babanod a phlant
- sicrhau bod darpariaeth Gymraeg gyflawn a chyson yn rhan o'r cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ym mhob ardal yng Nghymru.

**Cwestiwn 10** – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori, sef hyrwyddo a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru, er mwyn:

- sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sylwadau ategol:

Credwn y byddai modd cryfhau'r amcanion arfaethedig er mwyn cael effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, o dderbyn y cyngor yn ein hatebion i Gwestiynau 2 i 6 a 9 uchod.

**Cwestiwn 11** – Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori er mwyn hyrwyddo effeithiau cadarnhaol, neu leihau unrhyw effeithiau negyddol, ar hawliau plant? Rhowch y manylion yn y blwch isod.

**Cwestiwn 12** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw, gallwch eu nodi yma:

**Bod yn ddienw**
Gall ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.

| | |
|---|---|
| Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn. | x |